Home Office

# Ymgynghoriad y Llywodraeth

## Ceisiadau'r Heddlu am Ddeunydd Trydydd Parti

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cychwyn ar 16 Mehefin 2022

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 11 Awst 2022

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **I:** | Sefydliadau plismona, erlynwyr y CPS, cynrychiolwyr cyfiawnder troseddol gan gynnwys barnwyr a chyfreithwyr amddiffyn, sefydliadau cymdeithas sifil sy'n cynrychioli dioddefwyr trais ac ymosodiadau rhywiol, dioddefwyr troseddau y gofynnwyd am ddeunydd trydydd parti amdanynt, sefydliadau trydydd parti y gellir gofyn iddynt gyflenwi deunydd am ddioddefwyr megis awdurdodau lleol, sefydliadau addysg ac iechyd, Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs) a Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs). |
| **Rhanbarthau daearyddol:** | Cymru a Lloegr |
| **Hyd:** | Yn cychwyn ar 16 Mehefin 2022 am 8 wythnos, yn cau ar 11 Awst 2022. |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat amgen) i:** | Ceisiadau'r heddlu am ymgynghoriad Deunydd Trydydd Parti<br>Y Gyfarwyddiaeth Data a Hunaniaeth<br>2 Marsham Street<br>Llundain<br>SW1P 4DF<br><br>Email: tpmconsultation@homeoffice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | **Gellir *(cyflwyno'r ymatebion ar-lein –* https://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/s/UP22YY/**<br><br>Neu drwy'r post i'r cyfeiriad a restrir uchod |
| **Papur ymateb:** | Mae ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn i gael ei gyhoeddi erbyn yn: https://www.gov.uk/government/consultations/police-requests-for-third-party-material |

# Cynnwys

Rhagair Gweinidogol 2

Rhagymadrodd 3

Holiadur 5

Amdanoch chi 16

Manylion cyswllt a sut i ymateb 17

- Cymorth a chefnogaeth 17
- Cwynion neu sylwadau 17
- Copïau ychwanegol 17
- Cyhoeddi ymateb 18
- Grwpiau cynrychiadol 18
- Cyfrinachedd **Error! Bookmark not defined.**

Egwyddorion yr ymgynghoriad 22

# Rhagair Gweinidogol

Mae’r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod dioddefwyr troseddau’n cael eu trin yn deg ac yn barchus, a bod ymchwiliadau’n cael eu datblygu’n gyflym i sicrhau bod troseddwyr yn cael eu dwyn o flaen eu gwell.

Mae ceisiadau'r heddlu am ddeunydd trydydd parti, a all gynnwys cofnodion addysg, meddygol neu awdurdod lleol weithiau'n angenrheidiol i gynnal ymchwiliad, ond nid ydynt bob amser yn cael eu trin yn briodol. Weithiau gwneir ceisiadau am ormod o wybodaeth neu wybodaeth ddiangen, a gall hyn wneud i’r dioddefwr deimlo mai ef/hi yw’r un sy’n destun ymchwiliad.Gall hyn fod yn arbennig o heriol i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol lle mae'r deunydd y gofynnir amdano yn aml yn sensitif iawn. Gall hyd ymchwiliadau hefyd fod yn drawmatig i ddioddefwyr, a gall ceisiadau am ddeunydd trydydd parti gyfrannu at eu harafu.

Pan yw rhywun yn riportio trosedd, dylent deimlo’n hyderus y gallant wneud hynny gan wybod na fydd eu preifatrwydd yn cael ei darfu arno'n ddiangen, ac na fydd ei achos yn wynebu oedi hir o ganlyniad i geisiadau o’r fath.

Trwy'r ymgynghoriad hwn rydym am gasglu mwy o fewnwelediad, tystiolaeth a data i gael dealltwriaeth drylwyr o'r materion dan sylw.Rydym hefyd yn defnyddio’r ymgynghoriad i werthuso dyletswyddau newydd posibl ar blismona, a fyddai’n cael eu cynllunio i sicrhau bod ceisiadau’r heddlu am ddeunydd trydydd parti yn cael eu gwneud yn briodol.

Rwyf yn croesawu barn ar y materion hyn ac yn edrych ymlaen at drafodaeth bellach gyda rhanddeiliaid.



**Rachel Maclean AS**

**Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (Gweinidog dros Ddiogelu)**

# Rhagymadrodd

Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu gwybodaeth am geisiadau gorfodi’r gyfraith am ddeunydd trydydd parti sy’n ymwneud â dioddefwyr troseddau, a phrofi opsiynau posibl ar gyfer gwella’r broses hon. Deunydd trydydd parti yw deunydd sy’n cael ei gadw gan berson, sefydliad, neu adran o’r llywodraeth heblaw’r ymchwilydd a’r erlynydd, naill ai yn y DU neu’r tu allan i’r DU. Nid yw trydydd partïon yn ymwneud yn uniongyrchol â'r achos dan sylw, ond gallent gadw gwybodaeth sy'n berthnasol iddo[1].Gallai hyn gynnwys cofnodion meddygol, addysgol neu wasanaethau cymdeithasol ond gall gwmpasu ystod eang o ddeunydd megis cofnodion cyflogaeth neu nodiadau o sesiynau cwnsela.

Weithiau mae angen i'r heddlu ofyn am ddeunydd gan drydydd parti am ddioddefwr lle bo hynny'n berthnasol i drywydd ymholi rhesymol. Lle mae’r heddlu’n gwneud cais o’r fath, rhaid iddynt gael sail gyfreithlon i wneud hynny a sicrhau cydymffurfiaeth â’r rhwymedigaethau deddfwriaethol ehangach (megis Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU).Er bod y materion sy'n cael eu harchwilio yn yr ymgynghoriad hwn yn arbennig o berthnasol i ymchwiliadau i drais rhywiol a throseddau rhywiol (RASO), gall deunydd trydydd parti fod yn berthnasol mewn amrywiaeth o fathau o droseddau, felly gallai'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chanlyniad yr ymgynghoriad gael effaith eang.

Fe wnaeth Adolygiad o Dreisio o’r Dechrau i’r Diwedd y Llywodraeth amlygu nifer o faterion yn ymwneud â deunydd trydydd parti, y mae ein cynigion polisi yn ceisio mynd i’r afael â hwy. Un mater sylfaenol yw angenrheidrwydd a chymesuredd ceisiadau, sy’n golygu bod yr heddlu weithiau’n gofyn am ormod o wybodaeth am ddioddefwr neu y gallent ofyn am wybodaeth nad yw’n berthnasol. Gallai ceisiadau ddod yn uniongyrchol gan yr heddlu neu gallent ddod o Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Fe wnaeth cyfranogwyr mewn ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o’r Adolygiad o Dreisio adrodd am gynnydd mewn ceisiadau am ddeunydd trydydd parti yn y blynyddoedd diwethaf, gan wneud i broses sydd eisoes yn peri gofid deimlo hyd yn oed yn fwy ymwthiol.

Mae pryder y gallai gwybodaeth y gofynnwyd amdani am ddioddefwyr mewn achosion RASO gael ei defnyddio i geisio profi neu wrthbrofi hygrededd y dioddefwr gan ddefnyddio gwybodaeth nad yw’n berthnasol i’r ymchwiliad.Er enghraifft, cofnodion addysgol hanesyddol cyn yr amser pan ddigwyddodd y drosedd honedig. Gall hyn gael effaith negyddol ddifrifol ar y dioddefwr. Gallai ymmagwedd o’r fath amharu’n ddiangen ar eu preifatrwydd, gwneud iddynt deimlo mai nhw yw’r rhai sy’n destun ymchwiliad a gallai fod yn ffactor arwyddocaol sy’n achosi iddynt dynnu’n ôl o’r broses cyfiawnder troseddol.

Mae gwaith cwmpasu cychwynnol gyda heddluoedd, grwpiau dioddefwyr a thrydydd partïon wedi nodi ymagwedd anghyson o ran beth, a sut, y caiff dioddefwyr eu hysbysu amdano mewn perthynas â cheisiadau trydydd parti am ddeunydd. Mae'r sail gyfreithiol y

[1] Attorney_General_s_Guidelines_2020_FINAL_Effective_31Dec2020.pdf (publishing.service.gov.uk), t.9

dibynnir arni, yr union wybodaeth sydd ei hangen a sut y bydd y deunydd yn cael ei ddefnyddio yn feysydd pryder penodol.

Er bod y fframwaith cyfreithiol presennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu weithredu mewn ffordd sy'n parchu preifatrwydd unigolion yn briodol, rydym o'r farn ei bod yn werth ystyried a allai mesurau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol ychwanegol helpu i fynd i'r afael â'r ymagweddau anghyson sy'n cael eu mabwysiadu. Rydym yn ystyried nifer o gynigion i fynd i'r afael â'r materion hyn.Mae'r dyletswyddau yr ydym yn ceisio mewnbwn arnynt fel sy'n dilyn:

- Dyletswydd statudol ar blismona i geisio deunydd trydydd parti dim ond pan yw'n angenrheidiol ac yn gymesur.
- Dyletswydd statudol ar blismona i ddarparu gwybodaeth lawn a chlir i'r person y gofynnir am ddeunydd trydydd parti amdano a'r trydydd parti y gofynnir iddo ddarparu'r wybodaeth.
- Cod ymarfer i gyd-fynd â'r dyletswyddau hyn ac egluro'r defnydd ohonynt yn ymarferol.

Mater arall yw faint o amser y mae'n ei gymryd i drydydd parti ddychwelyd ceisiadau am ddeunydd, a'r effaith y gall hyn ei chael ar arafu achos. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae gennym ddiddordeb mewn dysgu rhagor ynghylch a yw hyn yn ffactor arwyddocaol o ran ymestyn amserlenni ymchwilio, pam y gallai trydydd partïon ei chael yn anodd dychwelyd deunydd yn gyflym, a ph'un ai drwy sicrhau bod ceisiadau'n cael eu gwneud dim ond lle mae'n angenrheidiol a chymesur y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar amseroldeb. Mae ymchwiliadau hir yn drawmatig i ddioddefwyr, yn arbennig mewn perthynas â RASO. Os yw ceisiadau am ddeunydd trydydd parti'n achosi oedi sylweddol, mae hyn hefyd yn rhywbeth yr ydym am roi sylw iddo.

Rydym yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan bawb sy'n ymwneud ag ymchwiliadau'r heddlu sy'n cynnwys ceisiadau am ddeunydd trydydd parti, yn arbennig mewn achosion RASO gan fod hwn wedi'i nodi fel mater penodol yn yr Adolygiad o Dreisio. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau plismona, erlynwyr y CPS, cynrychiolwyr cyfiawnder troseddol gan gynnwys barnwyr a chyfreithwyr amddiffyn, sefydliadau cymdeithas sifil sy'n cynrychioli dioddefwyr trais ac ymosodiadau rhywiol, dioddefwyr troseddau y gofynnwyd am ddeunydd trydydd parti amdanynt, sefydliadau trydydd parti y gellir gofyn iddynt gyflenwi deunydd am ddioddefwyr megis awdurdodau lleol, sefydliadau addysg ac iechyd, Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs) a Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs).

# Holiadur

Rhennir yr arolwg hwn yn dair adran. Mae Adran 1 ar gyfer gorfodi'r gyfraith, erlynwyr a chyfreithwyr amddiffyn, mae adran 2 ar gyfer trydydd partïon, grwpiau dioddefwyr a dioddefwyr ac mae adran 3 ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nodir ar ddechrau pob adran at bwy yr anelir y cwestiynau.

## **Adran 1:** Cwestiynau ar gyfer gorfodi'r gyfraith, erlynyddion a chyfreithwyr amddiffyn

Yn yr adran hon, hoffem sefydlu rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am ddeunydd trydydd parti: beth ydyw a pham a pha mor aml y gofynnir amdano.

1. **Pa fath o ddeunydd ydych chi'n credu sy'n gyfystyr â deunydd trydydd parti? Nodwch bob un sy'n berthnasol.**
    a. Cofnodion meddygol
    b. Cofnodion iechyd meddwl
    c. Nodiadau cwnsela/therapi
    d. Nodiadau cynghorydd trais rhywiol/trais domestig annibynnol
    e. Cofnodion cyflogaeth
    f. Cofnodion awdurdodau lleol
    g. Cofnodion  addysg
    h. Cofnodion carchar
    i. Recordiadau Teledu Cylch Cyfyng (‘CCTV’)
    j. Arall, nodwch os gwelwch yn dda

2. **Am bwy y gofynnir am ddeunydd trydydd parti fel arfer? Nodwch bob un sy'n berthnasol.**
    a. Dioddefwr
    b. Tyst
    c. Rhywun dan amheuaeth

3. **Ym mha fathau o ymchwiliadau ydych chi'n gofyn am ddeunydd trydydd parti? Nodwch bob un sy'n berthnasol.**
    a. Treisio a Throseddau Rhywiol (RASO)
    b. Cam-drin Domestig
    c. Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

d. Ymosodiadau neu Droseddau Treisgar
e. Lladdiad
f. Troseddau Economaidd
g. Masnachu cyffuriau
h. Troseddau meddiangar
i. Caethwasiaeth fodern
j. Arall (nodwch)

4. **Rydym yn deall y gall ceisiadau am ddeunydd trydydd parti fod yn broblem benodol mewn ymchwiliadau i Dreisio a Throseddau Rhywiol (RASO). Yn eich profiad chi, ym mha gyfran yn fras o ymchwiliadau RASO y gofynnir am ddeunydd trydydd parti?Dewiswch un ymateb.**
   a. <25%
   b. 26 – 50%
   c. 51 – 75%
   d. 76 – 100%

5. **Pam y gofynnir am ddeunydd trydydd parti?Dewiswch un ymateb a chynnwys gwybodaeth ychwanegol os oes angen.**
   a. Cefnogi neu wrthod trywydd ymholi rhesymol
   b. Mae'n gais arferol/polisi mewnol i wneud hynny mewn rhai mathau o ymchwiliadau
   c. Mae goruchwyliwr neu gydweithiwr wedi gofyn i mi wneud hynny
   d. Mae'r CPS neu barti allanol arall wedi gofyn i mi wneud hynny
   e. Gwybodaeth arall/ychwanegol

6. **Sut ydych chi'n penderfynu pa ddeunydd a faint o ddeunydd i ofyn amdano gan drydydd parti?Dewiswch un ymateb a chynnwys gwybodaeth ychwanegol os oes angen.**
   a. Gofynnir am bob deunydd a allai fod yn ddefnyddiol rhag ofn y bydd ei angen

b. Ystyrir trywyddau ymholi, a gofynnir am ddeunydd penodol i'w cefnogi neu eu gwrthod
c. Gwybodaeth arall/ychwanegol

| |
|---|
| |

7. **Yn eich barn chi, beth yw sail ceisiadau diangen ac anghymesur am ddeunydd trydydd parti? Nodwch bob un sy'n berthnasol.**
    a. Nid oes gan yr heddlu'r hyfforddiant a'r arbenigedd angenrheidiol
    b. Mae'r heddlu'n rhagweld y bydd angen llawer o ddeunydd trydydd parti ar y CPS ac felly'n gofyn am swm diangen/anghymesur
    c. Mae’r CPS yn gofyn am swm diangen/anghymesur o ddeunydd trydydd parti drwy’r heddlu
    d. Mae cyfreithwyr amddiffyn yn gofyn am ddeunydd trydydd parti diangen/anghymesur drwy'r heddlu
    e. Mae ceisiadau'n cymryd amser hir i'w cyflawni ac felly gofynnir am yr holl ddeunydd posibl rhag ofn y bydd ei angen
    f. Mae ceisiadau bob amser yn angenrheidiol ac yn gymesur
    g. Gwybodaeth arall/ychwanegol

| |
|---|
| |

Rydym yn gwybod y gall gymryd amser hir weithiau i geisiadau am ddeunydd trydydd parti gael eu dychwelyd. Yn yr adran hon, hoffem ddeall mwy am hyn, gan gynnwys pam y gall gymryd amser hir i ddychwelyd deunydd a pha fathau o atebion a allai fod yn briodol i liniaru hyn.

8. **Ar gyfartaledd, faint o amser mae'n ei gymryd i gyhoeddi cais am ddeunydd trydydd parti?**

9. **A yw hyn yn amrywio yn ôl y math o ymchwiliad? Dewiswch un.**
    a. Ydy
    b. Nac ydy

10. **Os YDY, nodwch yr amser a dreulir ar gyfartaledd ar gyflwyno cais am ddeunydd trydydd parti ar gyfer:**
    a. Treisio a Throseddau Rhywiol (RASO)………..
    b. Cam-drin Domestig………………………………
    c. Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant…………………….
    d. Ymosodiadau neu Droseddau Treisgar……………………
    e. Lladdiad………………………………………
    f. Troseddau Economaidd……………………………...
    g. Masnachu cyffuriau……………………………….
    h. Troseddau meddiangar……………………………..
    i. Caethwasiaeth fodern………………………………
    j. Gwybodaeth Arall/Ychwanegol

11. **Yn eich profiad chi, a oes gan drydydd partïon yr ydych wedi gofyn am wybodaeth ganddynt fel arfer yn:**
    **[Dewiswch un ymateb a chynnwys gwybodaeth ychwanegol os oes angen.]**

    a. Methu â darparu'r deunydd y gofynnir amdano
    b. Darparu'r hyn y gofynnir amdano yn unig
    c. Darparu mwy na'r hyn y gofynnir amdano
    d. Gofyn i chi fynd i safle i chwilio am ddeunydd perthnasol
    e. Gwybodaeth arall/ychwanegol

12. **Yn eich profiad chi, a yw maint y deunydd trydydd parti y gofynnir amdano yn effeithio ar yr amser a gymerir i ddychwelyd y deunydd? Dewiswch un ymateb a chynnwys gwybodaeth ychwanegol os oes angen.**
    a. Ydy, os gofynnir am fwy o ddeunydd bydd yn cymryd mwy o amser i'w dderbyn
    b. Nac ydy, nid yw faint o ddeunydd y gofynnir amdano yn gysylltiedig â faint o amser y gallai ei gymryd i'w dderbyn
    c. Gwybodaeth arall/ychwanegol

13. **Yn eich profiad chi, a yw trydydd partïon yn gyffredinol yn dychwelyd ceisiadau am ddeunydd o fewn amserlen foddhaol (h.y., er mwyn sicrhau bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo’n amserol)?Dewiswch un ymateb a chynnwys gwybodaeth ychwanegol os oes angen.**
    a. Ydyn
    b. Nac ydyn
    c. Gwybodaeth arall/ychwanegol

14. **Pam ydych chi'n credu y gall gymryd amser hir i rai trydydd parti ymateb i geisiadau am ddeunydd trydydd parti? Nodwch bob un sy'n berthnasol.**
    a. Nid yw’n flaenoriaeth iddynt wneud hynny

b. Nid ydynt yn gyfarwydd â'r mathau hyn o geisiadau ac nid ydynt yn gwybod sut i'w trin
c. Nid oes ganddynt aelod o staff neu dîm penodedig i ymdrin â'r ceisiadau hyn
d. Nid yw’r ceisiadau gan yr heddlu yn glir, ac nid ydynt yn darparu gwybodaeth benodol sydd ei hangen i brosesu’r cais
e. Gwybodaeth Arall/Ychwanegol

| |
|---|
| |

**15. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiadau dilynol:**

**a. Mae oedi wrth ddychwelyd deunydd trydydd parti yn ffactor unigol arwyddocaol wrth arafu ymchwiliad.Dewiswch un.**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**b. Pan ofynnir am ddeunydd trydydd parti yn gynnar mewn ymchwiliad, mae'n llai tebygol o achosi oedi.Dewiswch un.**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**16. Ar wahân i sicrhau bod ceisiadau am ddeunydd trydydd parti'n angenrheidiol ac yn gymesur, a oes unrhyw gamau eraill – deddfwriaethol neu anneddfwriaethol – yr hoffech eu gweld i wella prydlondeb dychweliadau ar gyfer deunydd trydydd parti?**

**Diolch am gwblhau'r adran hon. Ewch ymlaen i Adran 3 os gwelwch yn dda.**

## **Adran 2:** Cwestiynau ar gyfer darparwyr deunydd trydydd parti, grwpiau dioddefwyr a dioddefwyr

**17. Yn eich profiad chi, faint o ddeunydd trydydd parti y gofynnir amdano fel arfer am ddioddefwr? Dewiswch un ymateb a chynnwys gwybodaeth ychwanegol os oes angen.**

a. Dim un
b. Mae'n ymddangos bod ceisiadau'n cael eu teilwra'n benodol i drywyddau ymholi rhesymol ar gyfer yr ymchwiliad
c. Gofynnir am lawer o ddeunydd nad yw'n ymddangos ei fod yn ymwneud yn benodol â'r drosedd honedig
d. Gwybodaeth arall/ychwanegol

**18. Ar gyfartaledd, faint o amser mae'n ei gymryd i brosesu ac ateb cais am ddeunydd trydydd parti?**

**19. A yw hyn yn amrywio yn ôl y math o ymchwiliad? Dewiswch un.**

a. Ydy
b. Nac ydy

**20. Os YDY, nodwch yr amser a dreulir ar gyfartaledd ar brosesu ac ateb cais am ddeunydd trydydd parti ar gyfer:**

a. Treisio a Throseddau Rhywiol (RASO)…………….
b. Cam-drin Domestig…………………………………..
c. Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant……………………
d. Ymosodiadau neu Droseddau Treisgar……………
e. Lladdiad……………………………………………….
f. Troseddau Economaidd…………………………….
g. Masnachu cyffuriau………………………………….
h. Troseddau meddiangar……………………………..
i. Caethwasiaeth fodern……………………………….
j. Gwybodaeth Arall/Ychwanegol

**21. Gan feddwl am yr achosion hynny sy'n gyflym i ymateb iddynt, faint o amser maen nhw'n ei gymryd o'ch profiad chi?**

**22. Gan feddwl am yr achosion hynny sy'n cymryd yr amser mwyaf i ymateb iddynt, faint o amser maen nhw'n ei gymryd o'ch profiad chi?**

**23. Yn eich profiad chi, beth sy'n atal dychwelyd deunydd trydydd parti'n amserol?Nodwch bob un sy'n berthnasol.**

a. Nid oes unrhyw un wedi'i hyfforddi i ymdrin â cheisiadau o'r fath
b. Mae'r ceisiadau'n aneglur ac mae angen eu hegluro cyn y gellir eu cwblhau
c. Mae'r ceisiadau am nifer fawr o ddogfennau ac felly'n cymryd amser hir i'w cyflawni
d. Gwybodaeth arall/ychwanegol

**Diolch am gwblhau'r adran hon. Ewch ymlaen i Adran 3 os gwelwch yn dda.**

## **Adran 3:** Cwestiynau i'r holl ymatebwyr

Dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur y dylai'r heddlu fod yn gofyn am ddeunydd trydydd parti, yn unol â thrywydd ymholi resymol. Mae hyn wedi'i nodi'n glir yn y Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol (1996) a Chanllawiau Datgelu'r Twrnai Cyffredinol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad yw'r dull hwn yn cael ei ddilyn yn gyson. Rydym am osgoi ceisiadau anghymesur am wybodaeth am ddioddefwyr sy'n gyfystyr â 'theithiau pysgota' lle mai'r diben yw archwilio a yw'r dioddefwr yn gredadwy ai peidio.

Ystyriwch a ydych chi'n credu y byddai'r cynigion isod yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Os oes unrhyw atebion eraill yr hoffech eu hystyried, gallwch amlinellu'r rhain yng nghwestiwn olaf yr adran hon.

**24. Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dilynol:**

**a. Mae ymgysylltu â Chyngor Cynnar Gwasanaeth Erlyn y Goron mewn achosion o dreisio'n helpu i sicrhau bod ceisiadau am ddeunydd trydydd parti yn angenrheidiol ac yn gymesur, er mwyn dilyn trywydd ymholi rhesymol. Dewiswch un.**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

b. **Dylai fod dyletswydd statudol ar blismona i ofyn am ddeunydd trydydd parti sy'n angenrheidiol ac yn gymesur yn unig, er mwyn dilyn trywydd ymholi rhesymol ar gyfer ymchwiliad. Dewiswch un.**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

c. **Dylai fod dyletswydd statudol ar blismona i ddarparu gwybodaeth lawn i'r person y gofynnir am ddeunydd trydydd parti amdano. Gallai hyn gynnwys manylion am y wybodaeth a geisir, y rheswm pam a sut y bydd y deunydd yn cael ei ddefnyddio, a sail gyfreithiol y cais. Dewiswch un.**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

d. **Dylai fod dyletswydd statudol ar blismona, yn eu ceisiadau am wybodaeth i drydydd partïon, i fod yn glir ynghylch yr wybodaeth y gofynnir amdani, y rheswm pam, sut y bydd y deunydd yn cael ei ddefnyddio a'r sail gyfreithiol dros y cais.Dewiswch un.**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

e. **Dylai fod cod ymarfer i gyd-fynd â'r dyletswyddau a amlinellir ym mhwyntiau b – d i ychwanegu eglurder ar y disgwyliadau ar blismona a hybu cysondeb mewn ymarfer.Dewiswch un.**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

25. **Darparwch fanylion pellach ar gyfer eich atebion ac ymatebion i'r cynigion polisi a amlinellir yng nghwestiynau 15 b-e.**

26. **A oes unrhyw gamau eraill – deddfwriaethol neu anneddfwriaethol – yr hoffech eu gweld i leihau nifer y ceisiadau anghymesur a diangen am ddeunydd trydydd parti?**

**Diolch am gwblhau'r holiadur hwn.**

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi'ch hun

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu swyddogaeth yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (er enghraifft, aelod o'r cyhoedd) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw cwmni/sefydliad (os yn berthnasol)** | |
| **Cyfeiriad**<br><br>**Cod post** | |
| Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐<br>(ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp**, rhowch enw'r grŵp i ni a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych chi'n eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt a sut i ymateb

**Gellir cyflwyno'r ymatebion ar-lein: https://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/s/UP22YY/**

**Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) i:**

**E-bost:** tpmconsultation@homeoffice.gov.uk

**Neu drwy'r post at:**

Ceisiadau'r heddlu am Ddeunydd Trydydd Parti
Y Gyfarwyddiaeth Data a Hunaniaeth
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

## Cymorth a chefnogaeth

Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu gwybodaeth a thystiolaeth i gefnogi cynigion polisi'r Llywodraeth ynghylch ceisiadau'r heddlu am ddeunydd trydydd parti. Os ydych wedi cael eich effeithio gan unrhyw un o'r materion yn yr ymgynghoriad hwn a bod angen cymorth neu gefnogaeth arnoch, mae gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael ar gael yma: Sut i gael cymorth | VAWG (campaign.gov.uk).Os ydych mewn perygl uniongyrchol neu eisiau riportio trosedd, ffoniwch 999 a gofynnwch am yr heddlu.

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gŵynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Swyddfa Gartref yn y cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Gellir cael rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad uchod ac mae hefyd ar gael ar-lein yn [cyfeiriad gwe]

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau amgen gan [e-bost/rhif ffôn yr is-adran noddi polisi].

## Cyhoeddi ymateb

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a manylion y camau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd, neu y mae wedi'u cymryd, yn cael ei gyhoeddi yn https://www.gov.uk/government/consultations/police-requests-for-third-party-material

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan ydynt yn ymateb.

## Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r Swyddfa Gartref yn ymgynghori â'r cyhoedd fel rhan o'i phroses llunio polisi agored. Rydym yn cyhoeddi ein hymgynghoriadau ar GOV.UK. Gallwch ymateb:

- ar-lein
- trwy e-bost
- trwy'r post

Mae'r ffordd yr ymdrinnir â'ch data yn amrywio yn dibynnu ar sut yr ydych yn cyflwyno eich ymateb, ond bydd yr holl wybodaeth a gyflwynir i ni yn cael ei thrin yn unol ag egwyddorion diogelu data.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi:

- sut rydym yn prosesu'ch data personol pan ydych yn ymateb i'n hymgynghoriadau
- yr hawliau sydd gennych o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (UKGDPR)

Ar gyfer gwybodaeth rydych yn ei chyflwyno ar-lein:

- y Swyddfa Gartref yw'r rheolydd data
- Smart Survey yw'r prosesydd data

Mae Smart Survey yn darparu ac yn gweithredu'r platfform ar gyfer ymatebion ar-lein, ac mae eu polisi preifatrwydd yn esbonio sut maent yn casglu, diogelu a phrosesu'ch data ar ran y Swyddfa Gartref.

Ar gyfer gwybodaeth a gyflwynwch trwy e-bost neu bost:

- y Swyddfa Gartref yw'r rheolydd data
- Smart Survey yw'r prosesydd data

**Eich data**

**Pwrpas**

Rydym yn casglu'ch data personol fel rhan o'r broses ymgynghori:

- ar gyfer data ystadegol, er enghraifft y mathau o unigolion a grwpiau sy'n cymryd rhan
- er mwyn gwybod eich bod yn berson go iawn
- am waith dilynol ynghylch eich ymateb i'r ymgynghoriad os oes angen

**Y data rydym yn eu casglu**

Rydym yn gofyn am y data personol dilynol fel rhan o'r ymgynghoriad hwn:

- eich enw
- teitl eich swydd
- y cwmni/sefydliad rydych yn gweithio iddo
- eich cyfeiriad post a'ch cod post
- unrhyw ddata personol rydych yn ei wirfoddoli fel tystiolaeth neu enghraifft yn eich ymateb i'r ymgynghoriad

Os ydych yn ymateb ar-lein byddwn hefyd yn casglu:

- eich cyfeiriad Protocol Rhyngrwyd (IP), a manylion pa fersiwn o'r porwr gwe a ddefnyddiwyd gennych
- gwybodaeth am sut y gwnaethoch ddefnyddio'r wefan, a ddarperir gan gwcis a thechnegau tagio tudalennau

**Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol**

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'ch data personol yw cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd, sef ymgynghori â'r cyhoedd.

**Pam mae ei angen arnom**

Rydym yn casglu'ch manylion fel ein bod yn:

- gwybod eich bod yn berson go iawn

Rydym hefyd yn casglu data er mwyn:

- casglu gwybodaeth am y mathau o unigolion a grwpiau sy'n cymryd rhan

Os ydych yn ymateb ar-lein rydym yn defnyddio meddalwedd Google Analytics i gasglu gwybodaeth am sut rydych yn defnyddio'r wefan. Rydym yn gwneud hyn i helpu i sicrhau bod y wefan yn diwallu anghenion ei defnyddwyr ac i'n helpu i wneud gwelliannau. Mae Google Analytics yn storio gwybodaeth am:

- y tudalennau rydych yn ymweld â nhw
- faint o amser rydych yn ei dreulio ar bob tudalen
- sut wnaethoch gyrraedd y safle
- beth rydych yn clicio arno tra'ch bod yn ymweld â'r wefan

Nid yw Google Analytics yn casglu nac yn storio'ch gwybodaeth bersonol (er enghraifft eich enw neu gyfeiriad) felly ni ellir defnyddio'r wybodaeth hon i nodi pwy ydych chi. Gweler polisi cwcis Gov.uk cookie policy

**Beth rydym yn ei wneud gyda'ch data**

Ni fyddwn yn:

- rhannu'ch data personol gyda sefydliadau eraill
- gwerthu neu rentu'ch data i drydydd parti
- rhannu'ch data gyda thrydydd parti at ddibenion marchnata

Byddwn yn rhannu'ch data os bydd yn ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith, er enghraifft trwy orchymyn llys, neu i atal twyll neu drosedd arall.

**Am faint o amser rydym yn cadw'ch data**

Byddwn ond yn cadw'ch data personol cyhyd â:

- mae ei angen at ddibenion yr ymgynghoriad
- mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni ei wneud

Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu mai dim ond am 7 mlynedd y byddwn yn cadw'ch data personol.

**Diogelu preifatrwydd plant**

Nid yw'r ymgynghoriad hwn wedi'i gynllunio ar gyfer, nac wedi'i dargedu at, blant 13 oed neu iau. Nid yw'n bolisi gennym i gasglu na chynnal data' fwriadol am unrhyw un 13 oed neu iau.

**Eich hawliau**

Eich data personol chi yw'r data rydym yn eu casglu, ac mae gennych lais sylweddol dros yr hyn sy'n digwydd iddynt. Mae gennych hawl i ofyn am:

- gwybodaeth am sut y caiff eich data personol eu prosesu
- copi o'r data personol a gyflwynwyd gennych mewn fformat hygyrch
- bod unrhyw beth anghywir yn eich data personol yn cael ei gywiro ar unwaith
- bod unrhyw ddata personol anghyflawn yn cael eu cwblhau, gan gynnwys drwy ddatganiad atodol
- bod eich data personol yn cael eu dileu os nad oes cyfiawnhad dros eu prosesu mwyach
- mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft, pan yw cywirdeb yn cael ei herio) bod prosesu'ch data personol yn cael ei gyfyngu

Gallwch hefyd:

- gwrthwynebu prosesu'ch data personol lle caiff eu prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol
- cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth annibynnol (ICO) os credwch nad ydym yn trin eich data yn deg neu'n unol â'r gyfraith

**Newidiadau i'r hysbysiad hwn**

Gallwn addasu neu ddiwygio’r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ôl ein disgresiwn ar unrhyw adeg. Pan ydym yn gwneud newidiadau i'r hysbysiad hwn, bydd y dyddiad addasu olaf ar frig y dudalen hon yn cael ei ddiweddaru. Bydd unrhyw addasiad neu ddiwygiad i'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cael ei gymhwyso i chi a'ch data o'r dyddiad adolygu hwnnw. Os bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y ffordd y caiff eich data personol eu prosesu, bydd y Swyddfa Gartref yn cymryd camau rhesymol i sicrhau eich bod yn gwybod.

**Sut i gysylltu â ni**

**Swyddfa Gartref**

Cysylltwch â’n Swyddog Diogelu Data (DPO) ag unrhyw bryderon ynghylch sut rydym ni neu ein gwasanaethau’n trin eich gwybodaeth bersonol:

Swyddog Diogelu Data'r Swyddfa Gartref
Swyddfa Gartref
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

E-bost: DPO@homeoffice.gov.uk

Os hoffech wneud cais gwrthrych data, cysylltwch â: tpmconsultation@homeoffice.gov.uk

**Cyngor annibynnol ar ddiogelu data a phreifatrwydd**
Cysylltwch â’r Comisiynydd Gwybodaeth am gyngor annibynnol ar faterion diogelu data, preifatrwydd a rhannu data:

- ar-lein drwy eu gwefan
- dros y ffôn ar 0303 123 1113
- drwy ffôn testun ar 01625 545860
- drwy e-bost yn casework@ico.org.uk
- drwy'r ffurflen gyswllt hon
- drwy’r post yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Gaer
SK9 5AF

Os byddwch yn gwneud cwyn i’r Comisiynydd Gwybodaeth nid yw’n rhagfarnu’ch hawl i geisio iawn drwy’r llysoedd.

# Egwyddorion yr ymgynghoriad

Mae’r egwyddorion y dylai adrannau’r llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi’u nodi yn egwyddorion yr ymgynghoriad.

https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

© Hawlfraint y Goron 2020

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch inationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn tpmconsultation@homeoffice.gov.uk